

Prifysgol Bangor
Neuaddau Preswyl

Cydlynnydd Cynaliadwyedd Campws Byw

Mae Neuaddau Preswyl y Brifysgol wrthi'n chwilio am Gydlynnydd Cynaliadwyedd Bywyd Campws, a fydd yn cynorthwyo'r Tîm Preswyl i hwyluso gweithredu rhaglen cynaliadwyedd Campws Byw a digwyddiadau ar ein safleoedd preswyl.

Mae Campws Byw yn gymuned gymdeithasol a chynhwysol i holl breswylwyr neuaddau'r Brifysgol, mae'n galendr o ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod y flwyddyn gyda'r bwriad o feithrin gymuned breswyl glos.

Dros y blynnyddoedd diwethaf, mae ein gweithgareddau cynaliadwyedd wedi cynnwys yr ymgyrch Myfyrwyr yn Diffodd, Caru Eich Dillad, archwiliadau ailgylchu, gweithdai Caru Bwyd Casáu Gwastraff, a'r ymgyrch diwedd tymor 'Gormod i Bacio' mewn partneriaeth gyda'r British Heart Foundation. Rydym yn cynnal ystâd eang o ddigwyddiadau ond mae'r tîm o hyd yn agored i dderbyn syniadau neu awgrymiadau newydd er mwyn sicrhau llwyddiant.

Gall Cydlynnydd Cynaliadwyedd Campws Byw for yn fyfyrwr israddedig neu ôl-raddedig, a bydd disgwyl iddynt weithio ar gyfartaledd oddeutu 40 awr y mis rhwng mis Medi a Mehefin; ac yn gyfnewid am hyn byddant yn cael llety am ddim mewn ystafell astudio sengl yn un o'n neuaddau preswyl. (Gwerth oddeutu £4,200). Bydd disgwyl i'r Cydlynnydd Cynaliadwyedd Campws Byw weithio ar weithgareddau ac ymgyrchoedd eraill a hefyd digwyddiadau Campws Byw. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei gefnogi gan, ac yn cysylltu'n rheolaidd â'r Lab Cynaliadwyedd i sicrhau bod y rhaglen yn llwyddiannus.

Bydd gwaith ar gael hefyd yn ystod gwyliau'r haf a bydd cyfle yn ystod y flwyddyn i'r cydlynnydd wneud cais am y swyddi hyn.

(Caiff myfyrwyr ôl-raddedig aros mewn Neuaddau yn ystod cyfnod yr haf, trwy drefniant pellach.)

Mae dod i raglenni hyfforddi penodol yn rhan orfodol o'r swydd.

GOFYNION PERSONOL - CYDLYNYDD CYNALIADWYEDD CAMPWS BYW Nodweddion Dymunol

- Unigolyn brwdfrydig, cymdeithasol ac allblyg.
- Gyda diddordeb mewn, brwdfrydedd am, ac ymroddiad tuag at ddatblygiad cynaliadwy.

- Gallu creu perthynas â myfyrwyr o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chymdeithasol.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Hunan-gymhelliant, a'r gallu i weithio'n annibynnol ar liwt ei hun ac fel rhan o dîm tuag at gwblhau amcanion ar y cyd.
- Gwybodaeth am gynllunio digwyddiadau ac ymgyrchoedd, a sgiliau trefnu a rheoli amser.
- Sgiliau rhyngpersonol da gyda'r gallu i ddatblygu cysylltiadau gwaith effeithiol â chydweithwyr ar bob lefel yn y Brifysgol.
- Gyda diddordeb mewn materion amgylcheddol.
- Hyderus wrth siarad â phobl newydd.
- Medrus yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook, Twitter, Instagram.
- Profiad o ffotograffiaeth neu greu/golygu fideos.

SWYDD-DDISGRIFIAD - CYDLYNYDD CYNALIADWYEDD CAMPWS BYW

Prif ddyletswyddau:

- Gweithio gydag aelodau o'r Lab Cynaliadwyedd i ddatblygu profiad ymarferol o ddatblygiad cynaliadwyedd drwy brosiectau ac ymgyrchoedd gyda'r bwriad o wneud ein campws yn fwy cynaliadwy.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Bywyd Preswyl a'r tim i ddatblygu profiad campws byw cylchredol, bywiog a chynhwysol i fyfyrwyr.
- Monitro a diweddarau cyfryngau cymdeithasol Campws Byw, a hysbysfyRDDau neuaddau a'r Brifysgol.
- Cyfrannu at gynllun marchnata ac ymrwymiad Cynaliadwyedd Campws Byw.
- Cynorthwyo gyda chynllunio digwyddiadau, trefnu a chydlynu ymgyrchoedd oddi fewn i neuaddau drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan fyfyrwyr (e.e. ymgyrchoedd Caru Bwyd Casáu Gwastraff, Caru Eich Dillad, a Gormod i Bacio BHF).
- Hyrwyddo ein statws fel Prifysgol Werdd ac arwain ar yr ymgyrchoedd amgylcheddol rydym yn eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

- Mynychu Ffair y Glas i hyrwyddo cynaladwyedd.
- Gweinyddu cystadlaethau ar gyfryngau cymdeithasol bob pythefnos.
- Dosbarthu gwobrau i enillwyr cystadlaethau.
- Cydlynu'r Llysgenhadon Cynaladwyedd ym Mhrifysgol Bangor.
- Trefnu ac arwain ymweliadau neuaddau gyda'r llysgenhadon 2-3 gwaith y flwyddyn.
- Hybu eraill i arbed egni gyda'r ymgyrch.
- Cynorthwyo gyda stondinau a digwyddiadau.
- Creu a rhannu lluniau neu fideos yn ymwneud ag arbed egni o'r campws.
- Lledaenu neges yr ymgyrch drwy ymweliadau wyneb-i-wyneb yn y neuaddau.
- Rhannu/hyrwyddo ar dudalen Facebook yn rheolaidd.
- Llunio trywydd yr ymgyrchoedd drwy gydol y flwyddyn (mae syniadau newydd yn cael eu hannog yn gryf!)
- Cyngori holl fyfyrwyr sy'n newydd i'r Brifysgol am y pentrefi preswyl, a chyfleusterau'r gymuned a'r Brifysgol. Cynorthwyo i feithrin ysbryd cymunedol iach a chyfeillgar, hyrwyddo a chymryd rhan yng ngweithgareddau Campws Byw.
- Rhoi cyngor a chefnogaeth fel bo'r angen, ond o fewn dyletswyddau swydd cydlynnydd Campws Byw.
- Cofnodi pob digwyddiad, damwain neu achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Neuaddau Preswyl.
- Mynd i ddigwyddiadau hyfforddi a drefnwyd ar gyfer Cydlynwyr Campws Byw.
- Ymateb i unrhyw geisiadau rhesymol gan Dîm y Safle Preswyl.
- I ymddwyn mewn ffordd sy'n addas i gynrychiolydd o'r Tîm Bywyd Preswyl, yr adran Neuaddau a'r Brifysgol

Byddwch yn ennill y sgiliau canlynol:

- Arweinyddiaeth
- Cyfathrebu

- Sgiliau cyflwyno a siarad cyhoeddus
- Rheoli amser
- Trefnu digwyddiadau
- Datrys problemau
- Rheoli gwirfoddolwyr

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol, CV a ffurflen gais, yn amlinellu eich profiad perthnasol, i campwsbyw@bangor.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â Deirdre McIntyre drwy e-bostio campwsbyw@bangor.ac.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5 Chwefror 2018

Wedi Ymrwymo i Gyfle Cyfartal

**Prifysgol Bangor, Neuaddau Preswyl
Cydlunydd Cynaliadwyedd Campws Byw - 2017/18**

**Sylwer – mae'n rhaid i chi fod yn fyfyrwr llawn-amser i wneud cais am y swydd hon.
Rhaid cynnwys llythyr eglurhaol a CV gyda'r ffurflen gais a'u hanfon at
campwsbyw@bangor.ac.uk**

Cyfenw		Enw(au) Cyntaf	
Rhif Ffôn		E-bost	
Pa fath o fyfyrwr fyddwch chi yn 2017-18?	PGT/PGR/UG (dileer fel bo'r angen)		
Pa flwyddyn astudio fydd hon?	1^{af}/2^{il}/3^{ydd}/4^{ydd} (dileer fel bo'r angen)		
Sylwer: Os byddwch yn dechrau ar radd newydd ym Medi 2017 ni chaiff eich cais ei ystyried oni bai eich bod wedi gwneud cais ffurfiol i astudio yn y Brifysgol			
Rhif adnabod myfyriwr:	500_____		
Disgrifiwch yn fyr y cryfderau personol y credwch chi sy'n eich gwneud yn addas ar gyfer y gwaith hwn.			
Disgrifiwch unrhyw brofiad gwaith neu lwyddiannau sy'n berthnasol.			
Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i'ch cais.			